**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Mercher, 18 Ionawr 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Marc Davies
**YN BRESENNOL YN RHITHIOL:** Y Cynghorydd Wyn Evans (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Keith Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Endaf Edwards, Geraint Wyn Hughes, Ceris Jones a Chris James.

**HEFYD YN BRESENNOL YN RHITHIOL:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet;
Y Cynghorwyr Alun Williams, Matthew Vaux, Wyn Thomas, Aelodau Cabinet.
**CYNGHORWYR YN BRESENNOL YN RHITHIOL NAD YDYNT YN AELODAU O'R PWYLLGOR:** Y Cynghorwyr Hugh Hughes, Euros Davies, Gareth Lloyd

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**
Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Donna Pritchard Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal; Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol, Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Oedolion; Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil; Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO); Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Carwyn Williams a Carol Thomas, Cyfieithwyr.

(10.00 - 11.45 am)

**16 Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bob un i'r cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Wrth ddechrau'r cyfarfod, gwnaeth y Cadeirydd gydymdeimlo â phawb a oedd yn anhwylus ar hyn o bryd ac esboniodd hefyd fod y tywydd gwael wedi golygu nad oedd modd i nifer o aelodau/swyddogion fynd i'r Siambr y bore hwnnw. Er bod Cadeirydd arferol y Pwyllgor, y Cynghorydd Keith Evans, yn bresennol yn y cyfarfod, roedd y Cynghorydd Wyn Evans (yr is-gadeirydd) wedi cytuno i gadeirio'r cyfarfod ar ei ran am ei fod yn gwella ar ôl bod yn sâl.
Ymddiheurodd y Cynghorydd Caryl Roberts am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**17 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol na buddiannau a oedd yn rhagfarnu.

**18** **Diweddariad ar brosiect Cylch Caron**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet; Peter Skitt, Cyfarwyddwr Sirol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Donna Pritchard; Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal a Nerys Lewis, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol, i'r cyfarfod. Rhoddodd y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet, gyflwyniad byr am Brosiect Cylch Caron. Ar ôl hynny, rhoddodd Peter Skitt ddiweddariad am y prosiect. Byddai prosiect Cylch Caron yn darparu meddygfa ar un safle, fferylliaeth gymunedol, clinigau cleifion allanol, nyrsio cymunedol, a chyfleusterau gofal cymdeithasol, yn ogystal â thai gofal ychwanegol yn Nhregaron. Esboniodd y byddai'r cynllun hwn yn darparu model gwledig integredig o ofal yn y gymuned a thai ac y byddai'n dod yn lle Ysbyty Tregaron a Chartref Gofal Preswyl Bryntirion. Roedd hwn yn brosiect partneriaethol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

Roedd swyddogion ar draws Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn adolygu pecyn y tendr ar hyn o bryd a byddai adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet yn ystod y misoedd nesaf.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Byddai angen cyflwyno cais cynllunio newydd ar ôl i bartner newydd gael ei benodi. Roedd yr elfen ffosffadau yn parhau'n risg. Roedd posibilrwydd hefyd y gallai'r dyluniad fod yn wahanol i'r dyluniad gwreiddiol.
- Gofynnwyd a fyddai modd gofyn am gymorth cwmnïau adeiladu lleol lle bynnag bo modd gwneud hynny. Roedd posibilrwydd y gellid annog y partner newydd i gyflogi contractwyr lleol.
- Cadarnhawyd y byddai gofyniad i adolygu'r pecyn ariannu ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar ôl i'r broses dendro gael ei chwblhau.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd ei bod yn holl bwysig bod y cynllun yn cael ei gyflawni.
- Mewn ymateb i gwestiwn arall, cadarnhawyd bod y tir wedi'i ddiogelu.

Cytunwyd y byddai'r Swyddogion yn dychwelyd i roi diweddariad unwaith y byddai'r broses dendro wedi'i chwblhau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, Peter Skitt, Donna Pritchard a Nerys Lewis am ddod i'r cyfarfod ac am roi diweddariad ynglŷn â phrosiect Cylch Caron.

**19** **Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 2 2022/23**

Daeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet, ac Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Oedolion, i'r cyfarfod i gyflwyno Adroddiadau rheoli amlasiantaethol Chwarter 2 ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022. Roedd yr adroddiadau yn darparu gwybodaeth reoli ynghylch y camau a

gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru ac roeddent yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill o ran diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion. Roedd aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol oedd y trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau. Roedd y cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn. Roedd gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a oedd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

Cafodd yr aelodau y cyfle i ofyn cwestiynau ac atebwyd y cwestiynau hynny gan Elizabeth Upcott.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd mesurau ymyrraeth gynnar / atal yn holl bwysig.
- Dywedwyd bod y cyfnod clo yn sgil pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddifrifol ar lesiant rhai plant.
- Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r ffigurau hunan-niweidio yng Ngheredigion ym mis Gorffennaf 2022, dywedodd y Swyddog nad oedd dim rheswm penodol paham fod y ffigurau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y mis ond ychwanegodd fod y gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn y ffigurau o ran problemau iechyd meddwl ymhlith plant ers Covid.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â risgiau, cadarnhawyd bod tystiolaeth yn dangos bod ymyrraeth gynnar yn allweddol wrth ymdrin â'r atgyfeiriadau a ddaw gerbron y gwasanaeth ac mai'r bwriad oedd osgoi'r angen iddynt gael eu huwchgyfeirio ymhellach.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod Swyddogion Amddiffyn Plant profiadol iawn yn rhan o'r Tîm Brysbennu a'u bod yn ymchwilio'n ofalus i bob risg gan archwilio pob achos yn unigol a'i uwchraddio'n briodol.
- Cadarnhawyd bod aelodau'r cyhoedd yn medru rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw risg os ystyrir bod hynny'n briodol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol fel bod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod Lleol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.
Bu i'r Cadeirydd ddiolch i Elizabeth Upcott a'i thîm a'u llongyfarch am eu gwaith caled.

**20 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Ragfyr 2il 2022**

Daeth Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, i'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd â'r Is-

gadeirydd, Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredwr CAVO a Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil.

Cyflwynodd Hazel Lloyd-Lubran gofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2022 gerbron y Pwyllgor.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Roedd gwaith ar y gweill i groesawu ceiswyr lloches i Geredigion.
- Roedd dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei ystyried a'i drafod.
- Cadarnhawyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cwrdd 5 gwaith y flwyddyn.
- Roedd yr hybiau croeso cynnes yn cael eu trafod yn barhaus â'r cymunedau.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad canlynol:

- Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2022.

Cytunodd yr Aelodau i dderbyn yr argymhelliad er mwyn cyflawni eu rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Bwrd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cynghorydd Bryan Davies; yr Is-gadeirydd, Hazel Lloyd-Lubran a Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil am ddod i'r cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth ac am ateb y cwestiynau.

**21 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 yn gywir ac nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

**22 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Bu i Gadeirydd pob Pwyllgor (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd), ddarparu gwybodaeth yn eu tro am Flaenraglenni Gwaith eu Pwyllgorau.

1. <u>Cymunedau Ffyniannus</u>
   Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn dilyn cais ganddo, y byddai cyfarfod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei gynnal ddydd Llun 30 Ionawr am 2pm a bod gwahoddiad i bob aelod nad oeddent ar y Cabinet fod yn bresennol i drafod y gwasanaeth casglu gwastraff. Dywedodd yr

Arweinydd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod trafodaethau eisoes wedi'u cynnal ynglŷn â'r amharu a fu ar y gwasanaethau gwastraff yn ddiweddar a bod gwelliannau wedi'u cyflwyno yn y tymor byr.

2. Cymunedau Iachach
   Yn absenoldeb y Cadeirydd, rhoddodd y Cynghorydd Ceris Jones, yr Is-gadeirydd, ddiweddariad am waith y Pwyllgor. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod awgrym wedi'i wneud yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddydd Llun y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach dderbyn adroddiad gan Dîm Diogelu'r Cyhoedd yn y dyfodol ynglŷn â Hylendid Bwyd.
3. Cymunedau sy'n Dysgu
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am flaenraglen waith y Pwyllgor Cymunedau sy'n Dysgu. Dywedodd hefyd wrth y Pwyllgor y byddai Aelodau un o'r ffrydiau gwaith yn ymweld ag ysgolion yn fuan.
4. Adnoddau Corfforaethol
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am flaenraglen waith y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol. Dywedodd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod digwyddiad wedi'i gynnal yn Siambr y Cyngor yn ddiweddar ynglŷn â'r Ffermydd Sirol a bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cytuno i ymweld â'r Ffermydd Sirol yn y misoedd nesaf.
   Ychwanegodd y Cadeirydd fod un o'r Aelodau wedi gofyn am gynnwys Caffael fel eitem ar agenda un o gyfarfodydd y dyfodol. Byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol.
5. Pwyllgor Cydlynu
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am flaenraglen waith y Pwyllgor Cydlynu.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor am ddod i'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 2 Chwefror 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**